Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Diwygio Rheolau Sefydlog:** Rheol Sefydlog 12.19 (Dadleuon Agored)

Ionawr 2025

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae’r adroddiad hwn yn argymell newid Rheol Sefydlog 12.19 er mwyn caniatáu dadl ar fformat newydd, sef Dadl Agored, a fyddai’n mynd rhagddi ar sail pwnc yn hytrach na chynnig.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y’u nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig, os caiff ei chymeradwyo, i’w gweld yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 3**

**2. Y newid sydd ei angen i Reol Sefydlog 12.19 ........ 4**

**3. Materion eraill i'w nodi ........ 4**

**4. Penderfyniad ........ 4**

**Atodiad A: Newid arfaethedig i Reol Sefydlog a nodiadau esboniadol 6**

**Atodiad B: Rheol Sefydlog 12.19 fel y'i diwygiwyd ........ 7**

**Atodiad C: Llythyr oddi wrth Aelodau ........ 8**

# 1. Y cefndir

**1.** Ar 30 Mai 2024, ysgrifennodd Mark Drakeford AS, Adam Price AS, Jane Dodds AS a Paul Davies AS at y Llywydd yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes i gynnig treialu ffurf newydd o ddadleuon achlysurol i drafod y dewisiadau gwleidyddol allweddol sy'n ysgogi aelodau'r Senedd ac sy'n sail i'r camau ymarferol a gynigir gan wahanol bleidiau gwleidyddol. Cynigiodd yr Aelodau hefyd nifer o arbrofion o ran fformat. Mae'r llythyr i'w weld yn Atodiad C.

**2.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2024 a chytunodd i drafod y cynnig ymhellach. Yn dilyn hynny, bu'r Pwyllgor yn ystyried opsiynau ar gyfer fformat dadl newydd ar 16 Gorffennaf a 22 Hydref a bu hefyd yn ymgynghori â grwpiau'r pleidiau a'r Aelodau a awgrymodd y cynnig gwreiddiol. Ar 10 Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i fwrw ymlaen â threial ar gyfer ffurf newydd ar ddadl.

**3.** Bwriad y Pwyllgor Busnes yw treialu ffurf agored, ystyriol o ddadleuon, a fydd yn cael eu galw'n 'Ddadleuon Agored'. Mae prif nodweddion y treial wedi'u nodi isod:

- Caiff tair dadl ei threfnu unwaith y tymor yn ystod 2025, gan ddechrau yn nhymor y gwanwyn.
- Caniateir cyfnod o 120 munud ar gyfer y ddadl gyntaf, a bydd y Pwyllgor Busnes yn adolygu hynny ar ôl y ddadl;
- Cynhelir y dadleuon ar sail pynciau yn hyttrach na chynigion, yn debyg i Ddadleuon Byr. Ni fydd gwelliannau na phleidlais.
- Gwahoddir Aelodau i awgrymu pynciau posibl ar gyfer y dadleuon, i'w dewis gan y Pwyllgor Busnes.
- Yr Aelod/Aelodau a awgrymodd y pwnc yn wreiddiol fydd yn agor ac yn cloi'r ddadl, heb unrhyw amodau pellach ar drefn y siaradwyr.
- Bydd Aelodau o'r Llywodraeth yn gallu cyfrannu, ond nid ar ffurf ymateb.
- Bydd Aelodau'n cael eu hwyluso i gyfrannu fwy nag unwaith yn ystod dadl, a bydd ymyriadau'n cael eu hannog hefyd.

- Bydd y Pwyllgor Busnes yn asesu'r treial yn dilyn y ddadl olaf yn nhymor yr hydref 2025, er mwyn dod i gasgliad o ran a fu'r fformat newydd yn llwyddiant ai peidio.

## 2. Y newid sydd ei angen i Reol Sefydlog 12.19

**4.** Er mwyn galluogi dadl i fynd rhagddi ar sail pwnc yn hytrach na chynnig o sylwedd yn y modd a gynigir uchod, mae angen newid Rheol Sefydlog 12.19. Amlinellir y newid arfaethedig i Reol Sefydlog 12.19 yn Atodiad A.

**5.** Byddai'r newid yn darparu ar gyfer categori ychwanegol o fusnes yn y Cyfarfod Llawn a all fynd rhagddo heb gynnig, ac mae'n adlewyrchu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Dadleuon Byr. Oherwydd y byddai darpariaeth o'r fath yn galluogi Dadleuon Agored i gael eu cynnal ac na fyddai angen i'r Pwyllgor Busnes presennol, nac unrhyw Bwyllgor Busnes yn y dyfodol, eu hamserlennu, nid yw'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod yr ychwanegiad at y Rheolau Sefydlog yn cael ei wneud dros dro. Fodd bynnag, bydd parhad y Rheol Sefydlog yn rhan o'r adolygiad ar ôl i'r treial ddod i ben.

## 3. Materion eraill i'w nodi

**6.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig sicrhau y bydd modd i Aelodau gyfrannu fwy nag unwaith yn ystod Dadl Agored, fel yr awgrymwyd gan yr Aelodau a awgrymodd y cynnig gwreiddiol, drwy wahodd y Senedd i gytuno i atal Rheol Sefydlog 13.6 dros dro cyn pob Dadl Agored. Bydd nodweddion arfaethedig eraill y Dadleuon Agored a amlinellir uchod yn cael eu nodi mewn canllawiau er mwyn caniatáu hyblygrwydd i addasu'r fformat yn ôl yr angen yn ystod y treial.

**7.** Cred y Pwyllgor Busnes fod y dull hwn yn fwy cymesur at ddibenion y treial na chreu Rheol Sefydlog newydd. Bydd yr angen am Reolau Sefydlog penodol sy'n ymwneud â'r eitem hon o fusnes yn rhan o'r adolygiad ar ôl diwedd y treial.

## 4. Penderfyniad

**8.** Ar 21 Ionawr 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newid hwn i Reol Sefydlog 12.19. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheol Sefydlog 12.19 (vii) newydd arfaethedig yn Atodiad B.

**9.** Gwahoddir y Senedd hefyd i nodi y bydd y Llywydd yn cyhoeddi canllawiau manwl yn unol â Rheol Sefydlog 6.17 – ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes – i ymdrin â'r broses o ddewis pynciau i'w trafod, trefn y siaradwyr, natur cyfraniadau ac ymyriadau, terfynau amser y cyfraniadau a materion eraill sy'n berthnasol i dreialu Dadleuon Agored.

# Atodiad A: Newid arfaethedig i Reol Sefydlog a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn** | |
|---|---|
| **Cynigion** | **Cadw'r pennawd** |
| 12.19. Rhaid i’r busnes yn y cyfarfodydd llawn fynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir, ac eithrio’r canlynol:<br>(i) datganiadau;<br>(ii) cyflwyno Aelodau newydd;<br>(iii) teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;<br>(iv) cwestiynau llafar;<br>(v) dadleuon brys o dan Reol Sefydlog 12.69;<br>(vi) pan ffydd Aelod yn cynnig pwnc ar gyfer Dadl Fer o dan Reol Sefydlog 12.72; a,<br><u>(vii) pan fydd Aelod yn cynnig pwnc ar gyfer Dadl Agored.</u> | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Er mwyn caniatáu i Ddadleuon Agored fynd rhagddynt ar sail pwnc yn hytrach na chynnig. |

# Atodiad B: Rheol Sefydlog 12.19 fel y'i diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 12.19

### Cynigion

12.19. Rhaid i'r busnes yn y cyfarfodydd llawn fynd yn ei flaen ar sail y cynigion a wneir, ac eithrio'r canlynol:

(i) datganiadau;

(ii) cyflwyno Aelodau newydd;

(iii) teyrngedau coffa i gyn-Aelodau ac eraill;

(iv) cwestiynau llafar;

(v) dadleuon brys o dan Reol Sefydlog 12.69;

(vi) pan ffydd Aelod yn cynnig pwnc ar gyfer Dadl Fer o dan Reol Sefydlog 12.72; a,

<u>(vii) pan fydd Aelod yn cynnig pwnc ar gyfer Dadl Agored.</u>

# Atodiad C: Llythyr oddi wrth Aelodau (Saesneg yn unig)

Annwyl Llywydd,

We write with a proposition which we hope you will be willing to discuss at the next meeting of the Business Committee.

Wednesday afternoons at the Senedd follow a pattern which has been in place for many years. In the last term, a number of important but relatively modest changes were introduced, but essentially the bulk of time continues to be deployed in a way which would have been recognisable at any time in the last twenty years.

Not only has the form of Wednesday afternoons remained static, but the content has also settled into a familiar and predictable pattern. The Senedd debates important policy issues. Strangely, for a political forum, however, it almost never explicitly debates political perspectives or the underlying values and ideas which underpin the policy choices which are proposed or opposed.

We would like to suggest a modest new experiment, in which time would be set aside, once in each half term to discuss and debate the *key political choices* which motivate Senedd members and which underpin the practical actions which different political parties propose.

The working title of the debates we propose is 'The case for……'.

The topics for debate would focus on key political ideas such as: 'The case for equality'. 'The case for taxation'; 'The case for immigration' and so on.

It may be that such a debate could be conducted on a 'take note' basis, without any final vote. Or a debate could culminate with a vote on the proposition that 'The case for …. has been made', with Members voting for or against that proposal.

We believe that this new content could be accompanied by some experiments in format. If the Business Committee agrees, the debate could be scheduled for longer than usual; Member contributions could be freed of the usual time constrains; Government participation could be encouraged, but not in the usual form of a 'reply' to the debate, but rather by way of broader contribution.

For such an experiment to be tested properly, we believe that a series of debates of the sort we propose in would be necessary. It is likely to take some time before the format settles down, and before those who report the Senedd to the outside world take notice of this new element its proceedings. If a debate of this sort, once in each half term could be agreed, that would provide for three occasions in the rest of this calendar year. That would seem to us to be the minimum length for an experiment which could be reviewed at that point.

We would, of course, be very happy to discuss any of the content of this letter.

Yours sincerely,



**On behalf of Mark Drakeford MS, Adam Price MS, Jane Dodds MS and Paul Davies MS**